

## Marc Ansawdd Daearyddiaeth i Ysgolion Cymraeg (MAD-C)

Mae'n bleser gennym gyhoeddi yr ydym yn cynnig fersiwn o'r fframwaith Marc Ansawdd i Ysgolion Cymraeg. Gweler y C ac A isod am fwy o wybodaeth.

### **C. Beth sy'n wahanol am y MAD-C?**

A. Mae ef mwy neu lai'r un peth ond mae'n defnyddio iaith a manylder gwahanol i adlewyrchu'r cysyniadau cwricwlwm gwahanol sydd yng Nghymru o ran trefn, e.e. cael Cyfnod Sylfaen tan CA2, ac o ran cynnwys, e.e. y ffocws ar ADCDF. Cyfeirir at y fframwaith llythrennedd a rhifedd hefyd.

### **C. Ydy'r MAD-C wedi ei ysgrifennu yn y Gymraeg?**

A. Nac ydy, dydy'r fframwaith ddim wedi ei ysgrifennu yn y Gymraeg. Ysgrifennwyd y fframwaith yn Saesneg a bydd angen i ymgeiswyr ei gwblhau yn Saesneg. Mae hyn oherwydd bod y Marciau Ansawdd yn wobrau byd-eang a gallem gael ymgeiswyr o nifer o wahanol wledydd. Felly, o ran logisteg, byddai'n anodd caniatáu i bobl ymgeisio yn eu hiaith gartref a byddai hyn yn cynyddu costau.

Yn ychwanegol, aseswyd pob cais gan Dîm Cymedroli Cenedlaethol er mwyn sicrhau ansawdd. Er bod rhai o'r Cymeradwywyr yn siarad Cymraeg, mae'n hanfodol bod pob Cymeradwydd yn gallu deall beth sydd wedi'i roi ar y brif ffurflen gais.

### **C. Oes modd defnyddio gwaith disgyblion/fyfywrwyr yn y Gymraeg fel tystiolaeth yn ein cais MAD-C?**

A. Oes, gallech ddefnyddio enghreifftiau o waith disgyblion/fyfywrwyr yn y Gymraeg fel tystiolaeth. Bydd ein cymeradwywyr Cymreig yn gallu arolygu ac asesu gwaith yn y Gymraeg a chyfleu'r manylion ar lafar i aelodau eraill y tîm Cymedroli Cenedlaethol lle bo angen.

### **C. Deallaf eich bod yn ymweld â rhai ysgolion, beth os ydym yn ysgol cyfrwng Cymraeg neu yn dymuno cael ymweliad gan siaradwr Cymraeg?**

A. Gallem anfon gymeradwydd cyfrwng Cymraeg i wneud unrhyw ymweliad os oes angen.

### **C. Sut ydy'r MAD-C yn gweithio gyda'r Rhaglen Dysgu Byd-eang?**

A. Gallech gasglu tystiolaeth at y MAD-C o'r gwaith yr ydych yn gwneud fel rhan o'r Rhaglen Dysgu Byd-eang ac fel arall. Mae trywydd dysgu byd-eang cryf trwy'r Marciau Ansawdd lle gellir cyfeirio at y gwaith a chwblhawyd yn y maes yma, yn enwedig trwy ADCDF.

Dysgwch fwy am y [Rhaglen Dysgu Byd-eang Cymru/GA](#)

### **C. Beth am y gwaith a wnaed yn y Cyfnod Sylfaen a Meithrin - ydy hyn yn berthnasol i'r MAD-C?**

A. Yn bendant! Amlygodd Adroddiad Donaldson y pwysigrwydd o ddysgu byd-eang a llawer o agweddau eraill sydd yn rhan o'r fframweithiau Marc Ansawdd. Mae sicrhau trylwyredd pwnc yn hanfodol i waith o ansawdd uchel trwy Feysydd Dysgu a bydd gwaith y Marc Ansawdd yn eich helpu i roi tystiolaeth dros hyn.

### **C. Sut ydy'r MAD-C yn cysylltu gyda Chwestiynau Allweddol Estyn?**

A. Bydd y Marc Ansawdd Daearyddiaeth yn eich helpu i gyrraedd gofynion fframwaith Estyn. Er enghraifft, dengys y [matrixsauyma](#) sut mae ardaloedd y Marc Ansawdd a chwestiynau allweddol Estyn yn gorgyffwrdd.

### **C. Beth ydw i'n gwneud nesaf?**

A. Find out more about the QM's:

- [Primary](#)
- [Secondary](#)

Download the [PGQM Checklist document here](#) or the [SGQM Framework sample here](#)

Porwch dros waith enghreifftiol o'r ysgolion Peilot [yma](#)

- [Gwnewch gais yma i'r cynradd](#)
- [Gwnewch gais yma i'r uwchradd](#)

Dyddiadau cau ceisiadau ar gyfer Haf 2016 yw:

- PGQM Register by 31 January 2016 – submit your application by 3 June 2016
- SGQM Register by 29 February 2016 – submit your application by 29 July 2016